Estyn

Chwefror 2023



# Ymweliadau addysgol mewn colegau addysg bellach:

## mewnwelediadau hydref 2022

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o ymweliadau ymgysylltu arolygwyr cyswllt a galwadau a wnaed i golegau addysg bellach rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2022 gyda ffocws ar ymweliadau addysgol. Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfarfodydd ar-lein gydag uwch arweinwyr, arweinwyr canol, arweinwyr ymweld, athrawon, a staff cymorth. Y ffocws ar gyfer trafodaethau oedd y darlun presennol o ran ymweliadau addysgol, gan gynnwys ystyried sut mae colegau wedi ymateb i'r argymhellion a ddaeth yn sgil adolygiad thematig Estyn, Adolygiad o bolisïau ymweliadau addysgol yn y sector addysg bellach (Estyn, 2015). Gofynnwyd i golegau am effaith ymweliadau addysgol ar gyfer dysgwyr hefyd, a gofynnwyd iddynt rannu unrhyw heriau neu ystyriaethau pellach hefyd.

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

## Cynnwys


Darlun presennol ..... 1

Ymateb i'n hadolygiad thematig yn 2015 o bolisïau ymweliadau addysgol yn y sector addysg bellach ..... 1

Effaith ar gyfer dysgwyr ..... 2

Heriau ac ystyriaethau newydd ..... 3

Cwestiynau hunanfyfyrio i gefnogi colegau AB o ran ymweliadau addysgol ..... 4

## Y darlun presennol

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ymweliadau addysgol, gan gynnwys teithiau dramor, wedi dychwelyd i lefel debyg i'r hyn oeddent cyn y pandemig. Roedd hyn yn raddol i ddechrau, gan roi blaenoriaeth i rai meysydd a grwpiau o ddysgwyr. Er enghraifft, rhoddodd colegau flaenoriaeth i ddysgwyr yr oedd angen iddynt fynychu digwyddiadau neu ymgymryd â gweithgareddau y tu allan i'r coleg er mwyn cwblhau cymwysterau, a'r rhai a fyddai'n elwa fwyaf ar allu manteisio ar y cyfleoedd addysgol hyn oddi ar y safle, fel dysgwyr medrau byw yn annibynnol. Mae colegau'n ystyriol o'r rheoliadau a'r canllawiau ychwanegol yn gysylltiedig â COVID-19, ac yn cynllunio ar gyfer hyn yn unol â hynny.

Mae brwdfrydedd staff i ymgymryd â theithiau ac ymweliadau yn amrywio'n sylweddol o fewn colegau, ac ar eu traws. Mae rhai aelodau staff yn awyddus iawn i ymgymryd â theithiau ac ymweliadau, tra bod aelodau staff eraill yn mynegi pryderon sylweddol ynghylch graddfa'r cyfrifoldeb a'r prosesau manwl sy'n ffurfio rhan o'r camau cynllunio, er bod arweinwyr colegau'n cydnabod bod angen y prosesau hyn. Pan mae staff yn awyddus i arwain a chymryd rhan mewn teithiau, dywedwyd bod yr opsiwn i gynnal ymweliad blaenorol ar gyfer staff yn unig yn un cadarnhaol, yn yr un modd ag y mae'r opsiwn i fanteisio ar hyfforddiant priodol i helpu â pharatoi. Nid oedd cysondeb clir o ran sut mae colegau'n digolledu staff am arwain a chymryd rhan mewn ymweliadau, a chydnabuwyd bod dibyniaeth sylweddol ar ewyllys da mewn llawer o achosion. Fodd bynnag, cafwyd cydnabyddiaeth gan rai colegau hefyd fod angen ystyried hyn yn nhelerau ac amodau staff, ac mae ychydig o golegau'n gweithio gyda chynrychiolwyr staff i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Roedd ymatebion yn amrywio o ran ymweliadau y mae sefydliadau trydydd parti yn gyfrifol am gyflwyno a goruchwylio gweithgareddau ynddynt. Mae'r rhan fwyaf o golegau'n gwneud y gwahaniaeth yn glir rhwng goruchwyliaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol yn yr ymweliadau hyn.

Mae ychydig o golegau yn cynnal rhaglen Gwobr Dug Caeredin o hyd gyda theithiau cysylltiedig fel ymweliadau preswyl ac ymdeithiau, er y dywedodd rhai eraill fod costau yn gysylltiedig â hyfforddiant staff o ran cynllun y wobr yn gallu bod yn afresymol. O ran digwyddiadau a theithiau sy'n cael eu trefnu'n gyfan gwbl gan sefydliadau allanol fel ysgolion haf prifysgol, gall colegau fod ynghlwm wrth godi ymwybyddiaeth am gyfleoedd felly, ond nid ydynt yn ymgymryd ag unrhyw un o'r cyfrifoldebau cysylltiedig.

## Ymateb i'n hadolygiad thematig yn 2015 o bolisïau ymweliadau addysgol yn y sector addysg bellach

At ei gilydd, mae colegau wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion o'n hadroddiad yn 2015. Dywedodd rhai colegau fod y rhan fwyaf o'r argymhellion yn adolygiad 2015 eisoes ar waith cyn cyhoeddi'r adroddiad. Mewn achosion eraill, defnyddiodd darparwyr ganfyddiadau'r adroddiad fel sylfaen i adolygu eu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymweliadau, ac o ganlyniad, maent wedi rhoi canllawiau manwl cam wrth

gam ar waith ar gyfer ymweliadau addysgol gan ystyried pob un o'r argymhellion. Mewn un achos, cyflogodd coleg ymgynghorydd allanol i gefnogi â'r prosesau adolygu. Mynegodd pob un o'r darparwyr hyder yn yr ymagwedd bresennol, ac roeddent yn gallu rhannu enghreifftiau o sut roeddent wedi mynd i'r afael â rhai o'r materion allweddol. Er enghraifft:

- caiff codau ymddygiad eu rhannu a'u llofnodi cyn cynnal ymweliadau, gydag adrannau penodol mewn canllawiau a pholisïau ar ymddygiadau disgwyliedig
- mae colegau yn gofyn i ddysgwyr a staff lynu at bolisi dim alcohol llym yn ystod ymweliadau, ni waeth beth yw eu hoedran
- mae dysgwyr a staff yn aros yn yr un llety

Yn yr achosion gorau, mae'r broses ar gyfer gwneud cais am ymweliad a'i gymeradwyo wedi'i seilio ar raddiad risg yn dibynnu ar y math o daith a lefel y risg dan sylw. Bydd pob ymweliad yn cael ei ddiffinio fel isel, canolig neu uchel. Er enghraifft, awdurdodir taith dramor neu risg uchel gan is-bennaeth neu rywun uwch. Yr uchaf yw'r risg a'r effaith, yr uchaf yw'r unigolyn sy'n cymeradwyo. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, cyfrifoldeb y tîm iechyd a diogelwch yw'r broses gymeradwyo derfynol. Yn y colegau hyn, diwygiwyd y polisïau bob blwyddyn ac mae'r rhan fwyaf o ymweliadau yn rhai risg isel. Yn gyffredinol, yr uchaf yw'r risg, y mwyaf o ddogfennau a gwybodaeth ategol sydd eu hangen, ac mae llawer o golegau wedi datblygu dogfennau neu lawlyfrau arweiniad manwl yn unol â hyn.

Mae colegau wedi egluro adran rolau a chyfrifoldebau eu canllawiau ynglŷn â disgwyliadau, cymhwysedd a gwybodaeth arweinydd y grŵp, yn cefnogi staff a dysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys diffinio lefel profiad yr arweinydd. Rhoddir diweddariadau rheolaidd i staff, ac mae'n ofynnol i staff dibrofiad ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol, gan gynnwys i gysgodi neu gynorthwyo staff mwy profiadol cyn arwain ymweliadau eu hunain, mewn rhai achosion.

## Effaith ar gyfer dysgwyr

Mae colegau'n cydnabod gwerth ac effaith gadarnhaol ymweliadau addysgol ar gyfer yr holl ddysgwyr, o ran ymestyn eu dysgu a'u datblygiad personol a chymdeithasol. Fe wnaeth bron pob un o'r colegau gydnabod ac amlygu buddion penodol teithiau ac ymweliadau ar gyfer y carfanau mwy bregus, gan gynnwys medrau byw yn annibynnol a dysgwyr eraill sydd dan anfantais a'r rhai sydd mewn perygl o fod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH), gyda'r grwpiau hyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau oddi ar y safle o fewn ardal y colegau. Roedd y mathau hyn o deithiau yn cynnwys prosiectau cymunedol, tripiau i'r traeth, ac ymweliadau â chanol trefi, gyda ffocws ar ddatblygu hyder ac annibyniaeth. Nododd colegau fod teithiau yn gysylltiedig â chwaraeon yn cynnig llawer o fuddion i ddysgwyr. Mae colegau wedi ailgyflwyno cyfleoedd gartref a thramor yn amrywio o weithgareddau allanol cymharol leol i deithiau rygbi i Dde Affrica, gan alluogi dysgwyr i elwa ar brofiadau a diwylliannau newydd. Hefyd, fe wnaeth dysgwyr elwa ar nifer o deithiau ac ymweliadau, gan gynnwys teithiau ag iddynt ffocws academaidd â phrifysgolion, cystadlaethau Sgiliau Byd galwedigaethol, a chyfleoedd cyfoethogi fel taith Harry Potter i Lundain. Ym mhob achos, rhannodd darparwyr y

buddion, gan gynnwys profiadau dysgu yn gysylltiedig â chwrs, yn ogystal â chyfrannu at ddatblygiad personol a chymdeithasol ehangach dysgwyr.

Mae cyfleoedd i gymryd rhan mewn teithiau ac ymweliadau yn amrywio rhwng gwahanol feysydd y cwricwlwm, sy'n golygu bod dysgwyr ar ychydig o raglenni yn mynd ar sawl ymweliad yn ystod eu cwrs, ond nid yw dysgwyr eraill yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath. Nid yw'r cyfle i fanteisio ar gyfleoedd i fynd ar deithiau ac ymweliadau, gan gynnwys dramor, yn gyson ar gyfer yr holl ddysgwyr. Mae llawer o golegau yn sôn am yr argyfwng costau byw ac, yn benodol, sut mae'n effeithio ar ddysgwyr o ran gallu elwa ar ymweliadau addysgol, yn enwedig y rhai o aelwydydd incwm isel. Fodd bynnag, soniodd colegau am ffrydiau cyllido presennol a newydd, fel Taith[1] a'u bwriadau i ddefnyddio'r rhain i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle teg i fynd ar deithiau tramor a gweithgareddau eraill oddi ar y safle. Soniwyd yn benodol am ddysgwyr iaith hefyd, gan fod hon yn garfan a fethodd gyfleoedd gwerthfawr yn ystod y pandemig, ac felly, mae disgwyl iddynt fanteisio ar deithiau ac ymweliadau yn y dyfodol.

Nid yw'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn casglu adborth ffurfiol yn gysylltiedig â theithiau gan ddysgwyr, er bod dysgwyr yn anffurfiol yn dweud bod y profiadau yn werthfawr a chadarnhaol. Mae dysgwyr yn cydnabod y manteision o ran y cwricwlwm a'u dysgu, ond hefyd y buddion ehangach, yn cynnwys magu hyder. Mewn rhai achosion, mae dysgwyr yn cwblhau gweithgareddau cyn y daith i'w paratoi ar gyfer yr hyn sydd i ddod, ac mewn achosion eraill, mae dysgwyr yn rhoi cyflwyniadau ar ôl yr ymweliad i rannu eu profiadau. Mae un coleg wedi nodi cronfa o gyllid y gall dysgwyr wneud cynnig amdano i'w ddefnyddio ar gyfer eu carfan, neu i grwpiau allu mynd ar ymweliadau yn y dyfodol. Dywedodd un coleg fod dysgwyr wedi awgrymu y byddent yn croesawu mwy o weithgareddau o'r math 'dod i'ch adnabod' yn y cyfnod cyn teithiau os byddant yn mynd i ffwrdd gyda phobl nad ydynt yn eu hadnabod yn dda.

## Heriau ac ystyriaethau newydd

Nodwyd nifer o faterion a ddaeth i'r amlwg. Yn gyntaf, nododd colegau ystyriaethau parhaus yn gysylltiedig â COVID-19 a bod angen cynllunio gyda hyn mewn cof, yn enwedig yn achos ymweliadau rhyngwladol. Roedd enghreifftiau o bwyntiau i'w hystyried yn cynnwys canslo funud olaf, prawf o statws brechu, lefel y risg mewn rhai gwledydd, a phrotocolau os bydd staff neu ddysgwyr yn profi'n bositif yn ystod ymweliad.

Dywedwyd bod effaith y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn her newydd hefyd, yn enwedig o ran newidiadau i gyllid allanol, dilysrwydd pasbortau, amser prosesu ceisiadau am basbort, a'r effaith ar gostau.

Yn olaf, roedd yr argyfwng costau byw hefyd yn thema gyffredin, lle roedd colegau eisiau sicrhau nad yw grwpiau o ddysgwyr sy'n hynod debygol o elwa ar gyfleoedd o'r fath, yn methu'r cyfleoedd oherwydd y gost. Mynegodd colegau eu

[1] Mae Taith yn rhaglen newydd sy'n galluogi pobl yng Nghymru i astudio, hyfforddi, gwirfoddoli a gweithio ym mhob cwr o'r byd, tra'n galluogi sefydliadau yng Nghymru i wahodd partneriaid a dysgwyr rhyngwladol i wneud yr un fath yng Nghymru - [https://www.taith.cymru/](https://www.taith.cymru/)

gwerthfawrogiad o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru y trefnwyd ei fod ar gael i gefnogi cynwysoldeb, er bod pryderon wedi cael eu mynegi ynghylch p’un a fydd hyn yn parhau.

Dywedodd pob un o’r darparwyr fod y canllawiau presennol yn gynhwysfawr, gan gynnwys y canllawiau a ddarparwyd gan Y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored (OEAP)[2] i helpu sicrhau bod ymweliadau a gweithgareddau addysgol yn ddiogel. Nododd ychydig o golegau fod gormod o amrywiad diangen mewn arferion, gweithdrefnau a dogfennaeth ledled Cymru, ac y byddai mwy o rannu arferion, neu ymagweddau cenedlaethol safonedig wedi’u harwain gan Lywodraeth Cymru, yn fuddiol. Roedd meysydd a allai elwa ar ymagweddau mwy safonedig neu gyffredin yn cynnwys:

- dehongli rheoliadau ynghylch gyrru bysiau mini
- polisïau o ran tâl staff neu amser i ffwrdd yn gyfnewid am fynd ar deithiau ac ymweliadau
- hyfforddiant diweddaru cychwynnol a rheolaidd ar gyfer arweinwyr ymweliadau, uwch staff sydd â chyfrifoldebau awdurdodi, a phobl eraill sy’n gysylltiedig.

Mae rhai colegau wedi cyflwyno cynigion am gyllid ychwanegol fel Taith, sef Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol newydd Cymru ar gyfer Dysgu sydd wedi’i chynllunio i ymgorffori ymagwedd ryngwladol at addysg a’r cwricwlwm. Pan fanteisir ar y cyllid hwn, mae cynlluniau ar waith i gynnal nifer sylweddol o weithgareddau cyfnewid rhyngwladol ar gyfer dysgu i ddysgwyr a/neu staff. Fodd bynnag, nid yw rhai colegau wedi gwneud cais am unrhyw ran o’r cyllid hwn eto.

## Cwestiynau hunanfyfyrio i gefnogi colegau AB o ran ymweliadau addysgol

- Pa gynlluniau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael cyfle teg i fynd ar ymweliadau a theithiau o ystyried y gallai fod costau i’w talu, hyd yn oed pan fydd cymorthdaliadau sylweddol ar gyfer gweithgareddau?
- A oes cynlluniau i gyflawni ymagwedd safonedig neu gyffredin ar draws y sector o ran:
    - rheoliadau gyrru bysiau mini
    - tâl staff neu amser i ffwrdd yn gyfnewid am fynd ar deithiau ac ymweliadau
    - hyfforddiant parhaus ar gyfer arweinwyr ymweliadau, uwch staff sydd â chyfrifoldebau awdurdodi, a phobl eraill sy’n gysylltiedig?
- Sut gellir casglu a dadansoddi tystiolaeth ar ôl taith i bennu’r effaith ar ddysgwyr a llywio cynllunio ymweliadau yn y dyfodol?

[2] Dolen gwefan at ganllawiau cenedlaethol OEAP - National Guidance | (oeapng.info)